Cynllun Gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Dyddiad yr archwiliad: rhwng 19 a 23 Mai 2014
Dyddiad yr ymweliad dilynol: rhwng 8 a 9 Awst 2016

Dyddiad yr ail ymweliad dilynol: rhwng 2 a 4 Rhagfyr 2025

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.27 (i) Sicrhau y datblygir Cynlluniau Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid y dyfodol yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaethau yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid cynnwys costau darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, ynghyd ag amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen o ran swyddogion er mwyn darparu'r gwasanaethau yn erbyn y rhai sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 3.27 (ii) Cynnal adolygiad blynyddol o berfformiad o ran gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid i'w gymeradwyo gan yr aelod fforwm perthnasol, neu'r uwch-swyddog perthnasol, fel y bo'n briodol. [Y Safon – 3.2] | Gwyrdd | Sicrhau bod yr adolygiad yn adlewyrchu'r perfformiad gofynnol yn erbyn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, a sicrhau bod pob rhan yn adlewyrchu perfformiad yn erbyn targedau a nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth blaenorol. | Mae'r adolygiad perfformiad yn cofnodi'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau yn erbyn y Cod a'r cynllun gwasanaeth blaenorol. | Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad blynyddol yn cynnwys y cynnydd o ran cyflawni'r gweithgaredd samplu a gynlluniwyd ac o ran cyflawni ymatebion targed i waith ymatebol. |
| 5.10 (i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei gynllun dirprwyo a'i weithdrefnau awdurdodi er mwyn | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| sicrhau bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi'n briodol ar ôl i'w cymwysterau a'u cymwyseddau gael eu hasesu;<br>a<br>Sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer awdurdodi swyddogion hylendid bwyd yn seiliedig ar eu cymhwysedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 5.1] | | Cwblhawyd. | | |
| 5.10 (ii) Adolygu a, lle y bo angen, diwygio awdurdodiadau swyddogion er mwyn sicrhau bod lefel awdurdodiad a dyletswyddau swyddogion yn cyd-fynd â'u cymwysterau, eu hyfforddiant, eu profiad a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.10 (iii) Sicrhau bod pob swyddog awdurdodedig yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen er mwyn bod yn gymwys i gyflawni'r agweddau technegol ar y gwaith y bydd yn cymryd rhan ynddo, yn | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| unol â'r Codau Ymarfer. [Y Safon – 5.4] | | | | |
| 5.10 (iv) Cynnal cofnodion o gymwysterau academaidd perthnasol neu gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad perthnasol eraill pob swyddog awdurdodedig yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.18 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau mewn sefydliadau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlderau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod sefydliadau'n cael ymyriadau hylendid bwyd ar yr amlderau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Roedd nifer mawr o safleoedd yn hwyr yn cael ymyriad neu heb gael sgôr, ac roedd yr ôl-groniad wedi cynyddu ers dechrau'r flwyddyn. Does dim cynllun i ail-alinio â'r Cod. | Sicrhau bod sefydliadau'n cael ymyriadau hylendid bwyd ar yr amlderau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |
| 7.18 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau bod sgoriau risg yn gyson â chanfyddiadau a chamau gweithredu swyddogion. | Mae pob sgôr risg yn gyson â'r canfyddiadau a'r camau a gymerwyd. | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.18 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith; a chymryd camau priodol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael eu darganfod, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | Glas | Mae angen gwaith pellach mewn perthynas â sicrhau bod swyddogion yn dogfennu eu hasesiad o gydymffurfiaeth mewn perthynas â bwyd wedi'i fewnforio. | Cynhelir gwiriadau cydymffurfiaeth ar fwyd wedi'i fewnforio lle bo'n briodol. | Cwblhawyd. |
| 7.18 (iv) Gweithredu ei weithdrefnau dogfenedig yn llawn, mewn perthynas ag arolygu sefydliadau bwyd ac ailymweld â nhw. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.18 (v) Sicrhau bod sylwadau a wneir yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.36 (i) Sicrhau bod ymyriadau ac arolygiadau safonau bwyd mewn sefydliadau yn cael eu cynnal ar yr amlderau sy'n ofynnol yn ôl Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd – yn enwedig mewn sefydliadau risg ganolig a risg isel a sefydliadau heb sgôr – yn cael eu cynnal ar yr amlderau sy'n ofynnol | Roedd nifer sylweddol o safleoedd, gan gynnwys sefydliad risg uchel, yn hwyr yn cael ymyriad neu heb gael sgôr. Roedd hanner y gronfa ddata ar goll oherwydd problem | Sicrhau bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlderau sy'n unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |

| Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | wrth fudo'r gronfa ddata. Does dim cynllun i ail-alinio â'r Cod. | |
| 7.36 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau ac asesiadau risg mewn sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Gwyrdd | Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau:<br>- bod sgoriau risg yn adlewyrchu canfyddiadau swyddogion<br>- bod camau dilynol priodol yn cael eu cymryd pan fo problemau sylweddol yn cael eu darganfod<br>- mai dim ond safleoedd cymwys sy'n cael eu cynnwys mewn unrhyw strategaeth orfodi amgen (AES) ac, os yw'r AES yn cynnwys casglu gwybodaeth a data gan swyddog nad yw'n gymwys, bod y gwaith hwn yn cael ei adolygu gan swyddog sydd â'r cymwysterau priodol | Roedd y sgoriau risg yn adlewyrchu canfyddiadau'r swyddogion.<br><br>Nid oedd camau dilynol priodol yn cael eu cymryd bob amser – roedd sgoriau risg yn dangos bod angen ailymweliad ond ni wnaed hynny.<br><br>Nid oedd AES yn cael ei defnyddio gan yr awdurdod mwyach. | Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau:<br>- bod camau dilynol priodol yn cael eu cymryd pan fo problemau sylweddol yn cael eu darganfod |

| Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 7.36 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith; a sicrhau bod camau amserol yn cael eu cymryd i fynd ar drywydd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio, yn unol â pholisi gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] | Oren | Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod swyddogion yn dogfennu cwmpas eu hymyriadau mewn sefydliadau a'u hasesiadau cydymffurfiaeth yn unol â gweithdrefn yr awdurdod a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Nid oedd yr aide-mémoire cywir yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, a dim ond ar adegau prin yr oedd yr wybodaeth ofynnol yn cael ei chofnodi. | Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod swyddogion yn dogfennu cwmpas eu hymyriadau mewn sefydliadau a'u hasesiadau cydymffurfiaeth yn unol â gweithdrefn yr awdurdod a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |
| 7.36 (iv) Sicrhau bod gweithdrefnau ymyriadau safonau bwyd dogfenedig yn adlewyrchu gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.36 (v) Sicrhau bod sylwadau a wneir a/neu ddata a gynhyrchir yn ystod ymyriad/arolygiad yn cael eu cofnodi'n amserol er mwyn atal gwybodaeth berthnasol rhag mynd ar goll, a sicrhau bod yr holl gofnodion o ymyriadau'n cael eu storio yn y fath ffordd fel y gellir cael gafael arnynt. [Y Safon – 7.5] | Glas | Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod swyddogion yn cofnodi eu sylwadau a'u canfyddiadau yn sgil arolygiadau yn gyson. Rhaid iddynt fod yn amserol wrth wneud eu cofnodion a sicrhau bod modd cael gafael arnynt. | Cofnodwyd sylwadau a chanfyddiadau mewn modd amserol, ac roedd modd cael gafael ar yr holl gofnodion. | Cwblhawyd. |
| 8.13 (i) Sefydlu, cynnal a gweithredu polisi a gweithdrefnau dogfenedig mewn perthynas â | Glas | Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod ei weithdrefn ar gyfer cwynion am fwyd | Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i diwygio ac nid oedd y ffurflen | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| chwynion am sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid; a diwygio'r gweithdrefnau cwynion am safonau bwyd a bwyd anifeiliaid er mwyn cynnwys manylion ei ddull o ymdrin â chwynion ynghylch bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n dod o aelod-wladwriaethau eraill yr UE neu drydydd gwledydd. [Y Safon – 8.1] | | / bwyd anifeiliaid / safleoedd bwyd yn cael ei gweithredu'n llawn mewn perthynas â chwynion ynghylch hylendid bwyd. O ran ymchwiliadau i gwynion ynghylch hylendid bwyd, dylai swyddogion ddogfennu canfyddiadau eu hymchwiliadau gan ddefnyddio'r ffurflenni a nodir yn y weithdrefn. | flaenorol yn cael ei defnyddio mwyach. | |
| 8.13 (ii) Sicrhau bod y rheiny sy'n cwyno am hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael gwybod canlyniad yr ymchwiliadau i'w cwynion, a bod y targedau ar gyfer amserau ymateb i gŵynion am hylendid bwyd, safonau bwyd, a bwyd anifeiliaid yn cael eu bodloni, yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod. Hysbysu'r ASB am bob cwyn ynghylch safonau bwyd sy'n ymwneud â pheryglon bwyd difrifol, boed yn lleol neu'n effeithio ar fwy nag un ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 8.2] | | | | |
| 12.10 (i) Adolygu, diweddaru a gweithredu ei Bolisi Samplu Bwyd dogfenedig yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog neu ganllawiau perthnasol a'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd; a sicrhau bod y Polisi Samplu Bwyd a'r Weithdrefn Polisi Samplu Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn cynnwys cyfeiriad at ei ddull o ymdrin â blaenoriaethau samplu cenedlaethol. [Y Safon – 12.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 12.10 (ii) Diwygio'r Weithdrefn Polisi Samplu Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid er mwyn cynnwys gwybodaeth am y methodolegau ar gyfer samplu cynhyrchion mewn cyflyrau gwahanol, a rhestr o'r offer sydd eu hangen er mwyn cymryd samplau, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| **Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol** | **Statws** | **Heb ei gyflawni’n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Camau heb eu cyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| 12.10 (iii) Cynnal gwaith samplu bwyd a bwyd anifeiliaid yn unol â’i weithdrefnau. [Y Safon – 12.6] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 12.10 (iv) Cymryd camau priodol yn unol â’i Bolisi Gorfodi pan nad ystyrir bod canlyniadau samplau microbiolegol yn foddhaol. [Y Safon – 12.7] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 13.8 (i) Sicrhau y caiff y weithdrefn ar gyfer ymchwilio i glefydau heintus ei rhoi ar waith ym mhob achos. [Y Safon – 13.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 14.7 (i) Hysbysu’r ASB am unrhyw ddigwyddiadau lleol difrifol neu broblemau diogelwch bwyd ehangach yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 14.5] | Glas | Hysbysu’r ASB am unrhyw ddigwyddiadau lleol difrifol neu broblemau diogelwch bwyd ehangach yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. | Hysbyswyd yr ASB ym mhob achos, lle roedd yn berthnasol. | Cwblhawyd. |
| 15.19 (i) Diwygio ei Bolisi Gorfodi er mwyn cynnwys ystyriaethau Prif Awdurdod a’r meini prawf ar gyfer defnyddio’r holl opsiynau gorfodi bwyd a bwyd anifeiliaid sydd ar gael yn unol â’r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol, a sicrhau bod y polisi | Glas | Cwblhawyd. | | |

| Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| yn cael ei roi ar waith. [Y Safon – 15.1] | | | | |
| 15.9 (iii) Sicrhau y caiff camau gorfodi cyfraith hylendid bwyd eu cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 15.3] | Gwyrdd | Sicrhau bod cydymffurfiaeth â Hysbysiadau Camau Unioni (RANs) yn cael ei gwirio mewn modd amserol. | Gwiriadau amserol wedi'u gwneud yn y rhan fwyaf o achosion ond nid ym mhob un. | Sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r holl RANs yn cael ei gwirio mewn modd amserol. |
| 15.9 (iv) Cofnodi'r rhesymau dros unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodir yn y polisi gorfodi. [Y Safon – 15.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 16.9 (i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar gyfer pob sefydliad bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad, penderfynu ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd lle nodwyd achos o ddiffyg cydymffurfio a manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi, | Oren | Sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cael adroddiadau a llythyrau arolygu ar ôl yr arolygiad, a sicrhau bod adroddiadau safonau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol fel y'i nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, gan gynnwys enw'r person a welwyd, y gyfraith fwyd y cynhaliwyd yr ymyriadau oddi tani, dynodiad y swyddog arolygu, ac | Er bod taflen crynhoi'r arolygiad wedi'i gadael gyda'r gweithredwyr busnesau bwyd ar ôl yr arolygiad, dim ond rhywfaint o'r wybodaeth ofynnol fel y'i nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yr oedd yn ei chynnwys. | Sicrhau bod adroddiadau safonau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer cydymffurfio, y samplau a gymerwyd, a'r dogfennau a archwiliwyd. |

| Argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| gan nodi'r rhesymau, unrhyw wyro oddi wrth y gweithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] | | amserlenni ar gyfer cydymffurfio. Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol am y sefydliad yn cael ei chadw ar ffeiliau'r sefydliad, gan gynnwys sylwadau mewn llyfrau nodiadau. | | |
| 19.12 (i) Gweithredu'r weithdrefn monitro mewnol ddiwygiedig yn llawn ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 19.1] | Gwyrdd | Mae'n rhaid i'r awdurdod sicrhau bod ymweliadau safonau bwyd yng nghwmni swyddog arall yn cael eu cynnal yn unol â'i weithdrefn, ac mae'n rhaid i'r cofnodion a gedwir ddangos manylion llawn y gwiriadau safonau bwyd a gynhelir o ffeiliau sefydliadau. | Cynhaliwyd ymweliadau yng nghwmni swyddog arall, yn unol â'r weithdrefn. Cofnodwyd gwybodaeth rannol mewn perthynas â gwirio ffeiliau. | Sicrhau bod y cofnodion a gedwir yn dangos manylion llawn y gwiriadau safonau bwyd a gynhelir o ffeiliau sefydliadau. |

Archwiliad CSHB 2017/18 – Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â chynllunio gwasanaethau yn sgil | Glas | Cynnwys manylion ymyriadau busnes newydd a manylion hyrwyddo'r CSHB. | Diweddarwyd y cynllun gwasanaeth i gynnwys yr wybodaeth hon. | Cwblhawyd. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB). | | | | |
| Camau gweithredu mewn perthynas â swyddogion awdurdodedig yn sgil archwilio'r CSHB. | Glas | Sicrhau bod swyddogion awdurdodedig wedi ymgymryd â hyfforddiant cysondeb. | Mae swyddogion wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar ar gysondeb wrth ddyrannu sgôr. | Cwblhawyd. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â'r rhaglen ymyriadau hylendid bwyd yn sgil archwilio'r CSHB. | Glas | Sicrhau bod yr holl ymyriadau dyledus yn cael eu cwblhau ar yr amlder cywir. | Roedd nifer mawr o safleoedd yn hwyr yn cael ymyriad neu heb gael sgôr. Mae'r argymhelliad yn ddyblygiad o 7.18 (i) uchod ac fe gaiff ei gau. | Wedi'i gau fel argymhelliad dyblyg. |
| Camau gweithredu mewn perthynas ag ailsgorio yn sgil archwilio'r CSHB. | Gwyrdd | Sicrhau bod ymyriadau ailsgorio yn cael eu cynnal yn gywir. | Cafodd ymyriadau ailsgorio eu harddangos yn gywir ar wefan y CSHB. | Sicrhau bod unrhyw ailsgorio'n adlewyrchu hanes cydymffurfio'r sefydliad yn gywir. |
| Camau gweithredu mewn perthynas â gweithdrefnau ymyrryd yn sgil archwilio'r CSHB. | Gwyrdd | Sicrhau bod gweithdrefnau, gan gynnwys aide-mémoires a thempledi llythyrau, yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun. | Roedd aide-mémoires a thempledi llythyrau am adroddiadau wedi'u diwygio i gynnwys y manylion gofynnol. Roedd y gweithdrefnau wedi'u diwygio ar y cyfan. | Sicrhau bod y gweithdrefnau'n cynnwys:<br>• Dull o flaenoriaethu safleoedd heb sgôr sy'n unol â'r Cod a'r Canllawiau Ymarfer |
| Camau gweithredu mewn perthynas â chamau gorfodi yn sgil archwilio'r CSHB. | Gwyrdd | Darparu gweithdrefnau ar gyfer erlyn/rhybuddio, camau gweithredu mewn safleoedd yr awdurdod lleol, a chamau gweithredu mewn ymateb i achosion o dorri deddfwriaeth CSHB.<br>Sicrhau bod rhybuddion CSHB yn cael eu cyhoeddi yn unol â'r canllawiau. | Darparwyd gweithdrefnau ar gyfer y rhan fwyaf o'r camau gorfodi.<br><br>Cyhoeddwyd rhybuddion CSHB yn unol â'r canllawiau. | Cofnodi'r weithdrefn ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig y cynllun CSHB. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil archwilio'r CSHB. | Gwyrdd | Darparu gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer cynnal monitro mewnol. | Mae'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer monitro hylendid bwyd yn cwmpasu'r rhan fwyaf o ofynion y CSHB. | Diwygio'r weithdrefn i gynnwys gwirio ansawdd y cronfeydd data fesul swmp. |

**Crynodeb**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **36** |
| **Cwblhawyd** | **24** |
| **Cynnydd da** | **8** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **4** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Heb eu profi** | **0** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **12** |